

CYMRU 2020

COLLI TIR COLLI IAITH

Ir mwyafrif, mae'n siwr fod y flwyddyn 2020 yn teimlo'n bell iawn i ffwrdd. Eto i gyd, yng nghydestun bywyd yr iaith Gymraeg, nid yw'n amser hir. Erbyn y flwyddyn 2020, os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, cred Cymdeithas yr Iaith y bydd y Gymraeg wedi colli tir ar raddfa gyflym iawn.

Nôd y daflen hon – Cymru 2020 – yw amlinellu'r peryglon hyn. Erbyn y flwyddyn 2020, cred Cymdeithas yr Iaith:

- y bydd hi fwy neu lai yn amhosib i dderbyn gwasanaethau modern trwy gyfrwng y Gymraeg gan gyrrif preifat
- ym myd gweinyddiaeth gyhoeddus, bydd y Gymraeg yn parhau i gael ei gweld fel iaith i'w chyfieithu yn hytrach na chyfrwng gweithio naturiol
- y bydd cystadleuaeth gynyddol, a diffyg cefnogaeth a chynllunio, yn golygu bod pobl leol yn ei chael hi'n amhosib i gael mynediad i'r farchnad dai
- y bydd llawer o gymunedau ar draws Cymru wedi colli gafael ar amrediad o sefydliadau allweddol – banciau, llythyrdai, tafarndai, siopau ac ysgolion.

O ganlyniad, os na fydd newid erbyn 2020, mae peryg y bydd unrhyw ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg wedi cael ei gyfyngu i rwydweithiau penodol, tra bydd pob cymuned naturiol Gymraeg wedi diflannu. Wrth reswm, ni all iaith ffynnu o dan y fath amgylchiadau.

ENNILL TIR CADW IAITH

Eto i gyd, pwysleisiwn nad yw'r dyfodol hwn yn anochel. Yn hytrach, ein gobaith yw y bydd amlinellu'r peryglon sydd yn wynebu'r Gymraeg – rhwng nawr a'r flwyddyn 2020 – yn sbarduno pobl i weithredu er mwyn atal y tueddiadau hyn. Mae Cymdeithas yr Iaith yn barod i wynebu'r her a galwn ar bobl Cymru i ymuno gyda ni yn y gwaith.

Y SEFYLLFA BRESENNOL


Gyda chyhoeddi canlyniadau cyfrifiad 2001, gwelwyd cynnydd yn y nifer o bobl sydd yn siarad Gymraeg. Heb os, roedd hyn yn newyddion da. Wedi blynyddoedd o ddirywiad, gellid ond croesawu'r elfen o gynnydd.

I raddau, golyga'r cynnydd hwn bod modd dadlau bellach y bydd yr iaith Gymraeg – ar ryw ffurf – yn goroesi. Mae'r blynyddoedd o ymgyrchu – a'r gyfres o newidiadau mewn polisi cyhoeddus a ddaeth yn ei sgil – wedi golygu bod yr amgylchiadau yng Nghymru, yn wahanol iawn heddiw, o'u cymharu â deg neu ugain mlynedd yn ôl. Er gwaethaf hyn, mae angen holi a ydym mewn gwirionedd yn diogelu seiliau'r Gymraeg? Sut fath yn union o ddyfodol ydyn ni yn ei greu i'r iaith ar hyn o bryd?

Mae nawr yn adeg gwbl briodol i holi'r cwestiwn

CYMRU 2020





hwn, gan fod y darlun sydd yn ein hwynebu yn un digon cymysglyd. Tra'n bod ni, ar y naill law, yn gweld cynnydd ystadegol, ar y llaw arall, mae gwendid ein cymunedau Cymraeg wrth iddynt wynebu her y mewnlifiad yn boenus o amlwg. Felly, er gwaetha'r arwyddion o obaith, mae'r dystiolaeth sy'n codi o ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith yn dangos bod y defnydd cymdeithasol, naturiol a wneir o'r Gymraeg yn parhau i ddirywio.

Mae hi'n hollbwysig ein bod ni'n wynebu'r her sylfaenol yma. O beidio gwneud, pryder Cymdeithas yr Iaith yw y byddwn yn arwain y Gymraeg i ddyfodol cyfyngedig. Erbyn y flwyddyn 2020 – o ddilyn y trywydd presennol – mae'n ddigon posib y gwelwn gynnydd pellach yn y nifer o unigolion sydd â gwybodaeth o'r Gymraeg, ond ar yr un pryd, ni fydd unrhyw gymuned naturiol Gymraeg ar ôl. Yn hytrach, bydd yr iaith yn cael ei chyfyngu fwyfwy i rwydweithiau penodol. Yn eironig, fe olyga hyn y

bydd nifer o sefydliadau Cymraeg, megis yr Urdd, yr Eisteddfod ac S4C yn mynd o nerth i nerth, wrth i Gymry ymwybodol chwilio am gyfleoedd i arfer yr iaith. Mae'n ddigon posib y bydd hyn yn bodloni rhai, ond bydd llawer mwy o bobl Cymru yn cael eu dieithrio. Canlyniad hyn oll fydd cyfyngu y Gymraeg i wagle, sydd yn bodoli gam i ffwrdd o brif ffrwd ein bywyd dyddiol.

Ni all y Gymraeg ffynnu o dan y fath amodau. Dadl Cymdeithas yr Iaith yw mai ffenomenon gymdeithasol yw iaith yn ei hanfod ac nad yw iaith wir yn fyw oni chaiff ei ddefnyddio, yn naturiol, fel cyfrwng cyfathrebu dyddiol. Mae angen cyflwyno newidiadau ar bob lefel – yn lleol ac yn genedlaethol, ond ni ddaw hyn heb gyfnod arall o ymgyrchu gwleidyddol. Prif ganlyniad ymgyrchoedd y gorffennol oedd sicrhau na fyddai'r Gymraeg yn diflannu cyn troad y ganrif. Yn awr, yr her yw i sicrhau na fydd yr iaith yn colli tir yng ngwyneb tueddiadau'r oes fodern. ☪

GWNEWCH BOPETH YN GYMRAEG DEDDF IAITH NEWYDD

Ar hyn o bryd, mae cyfle euraid gennym i bwysu am Ddeddf Iaith gryfach. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi ei fod am ddileu Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gan ddod â rhan fwyaf o swyddogaeth y Bwrdd i mewn i Lywodraeth y Cynulliad, a sefydlu swyddfa Dyfarnydd Iaith. O ganlyniad i'r cyhoeddiad yma, mae'r Gymraeg ar yr agenda ddeddfwriaethol am y tro cyntaf yn hanes y Cynulliad. Yr unig gwestiwn nawr yw pa fath o fesur iaith a gawn. Bwriad y llywodraeth – trwy sefydlu'r Dyfarnydd yw cyfyngu'r cyfan i ychydig o dacluso gweinyddol. Ar y llaw arall, galwa Cymdeithas yr Iaith am Ddeddf Iaith Newydd gyffrous a rydd gyfle newydd i'r Gymraeg.

Ni ellir gwadu y gwelwyd newid mawr, dros y blynyddoedd, yn y gydnabyddiaeth gyhoeddus a roddir i'r iaith Gymraeg. Ymhellach, gwelir fod cryn dipyn o ewyllys da i'w gael bellach tuag at yr iaith o sawl gwahanol cyfeiriad. Eto i gyd, er gwaethaf y newidiadau a fu, ni all ewyllys da yn unig warchod a hybu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Yn wir, erbyn y flwyddyn 2020, cred Cymdeithas yr Iaith y bydd llawer o enillion y gorffennol, wedi'u colli ac y bydd siaradwyr Cymraeg yn colli cyfleoedd i dderbyn y gwasanaethau trwy gyfrwng yr iaith.

I raddau helaeth, mae hyn yn deillio o wendidau sylfaenol y Ddeddf Iaith bresennol – o ran ei fframwaith ac o ran ffiniau ei phwerau. Yn sicr, mae gan hyn oblygiadau difrifol i'r defnydd naturiol a wneir o'r Gymraeg wrth i bobl gyflawni tasgau dyddiol.

CWMNIAU PREIFAT

Bu'r angen i ymdrin â'r sector breifat yn gwbwl ganolog i alwad Cymdeithas yr Iaith am Ddeddf Iaith Newydd. Sefydlodd yr hen ddeddf iaith drefn lle roedd disgwyl i rai rhannau o'r sector gyhoeddus ddarparu peth gwasanaethau Cymraeg. Erbyn heddiw, mae'r ffaith nad yw'r ddeddf yn cyffwrdd â'r sector breifat yn golygu ei bod bellach yn gwbwl aneffeithiol o ran ateb anghenion modern y Gymraeg.

Dros y blynyddoedd diwethaf, preifateiddiwyd llawer o'r hen gyfleustodau (dŵr, nwy, trydan a'r rheilffyrdd), gan olygu nad oes gan gwsmeriaid bellach yr hawl i fynnu gwasanaethau Cymraeg ganddynt. Ar yr un pryd, mae'r holl ddatblygiadau modern a dylanwadol a fu ers 1993 yn eiddo i'r sector breifat ac felly yn medru anwybyddu'r Gymraeg yn llwyr. Trwy edrych i'r dyfodol i'r flwyddyn 2020, fe welir y bydd hyn yn dwyschau ymhellach wrth i ddylanwad y sector breifat gynyddu. Bydd siaradwyr Cymraeg, felly, yn

Heb Ddeddf Iaith newydd, erbyn 2020:

- bydd hi fwy neu lai yn amhosib i dderbyn gwasanaethau modern, trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gyrff preifat.
- ym myd gweinyddiaeth gyhoeddus, bydd y Gymraeg yn parhau i gael ei gweld fel iaith i'w chyfieithu yn hytrach na chyfrwng gweithio naturiol.

colli cyfleoedd i weld a defnyddio'r iaith.

Ymhellach, o ystyried y modd mae twf y sector breifat, law yn llaw â datblygiadau technolegol, yn trawsnewid y modd caiff gwasanaethau eu cynnig, mae peryg dros y blynyddoedd nesaf i ni golli tir ar raddfa gyflym iawn. Er enghraifft, erbyn heddiw ychydig iawn o ddefnydd a wneir o lyfrau sic, gan fod y mwyafrif yn defnyddio cardiau credyd, neu'n bancio ar y we. Ond, mae'r gwasanaethau hyn ar gael yn Saesneg yn unig ac felly daw enillion y gorffennol yn gynyddol ddi-werth. Gellir ond dychmygu faint o wasanaethau Cymraeg eraill fydd yn yr un cae erbyn y flwyddyn 2020. Mae peryg gwirioneddol y caiff y Gymraeg – yn enwedig ymhlith pobl ifanc – ei chysylltu gyda'r gorffennol, tra bo'r Saesneg yn cael ei chysylltu gyda'r dyfodol.

CYRFF CYHOEDDUS

Wrth roi sylw i'r sector breifat, nid yw Cymdeithas yr Iaith yn awgrymu fod popeth wrth ein bodd yn y sector gyhoeddus. Hon yw'r sector a gafodd ei heffeithio fwyaf gan Ddeddf Iaith 1993, gan fod disgwyl i gyrff cyhoeddus gyflwyno cynlluniau iaith i gael eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith. Eto i gyd, er gwaethaf gweithredu'r cynlluniau hyn dros y degawd diwethaf, cymharol arwynebol fu'r newid ieithyddol a ddaeth yn eu sgil.

Cyngor Sir Gwynedd yw'r unig gorff cyhoeddus

sydd wedi mabwysiadu'r Gymraeg fel iaith weinyddol fewnol. Yn achos amrediad eang o gyrff pwysig eraill, yr hyn a wnaed oedd creu wyneb gyhoeddus dwyieithog. Nid oedd y newidiadau yn treiddio llawer pellach. Felly, ym myd gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru, nid yw'r Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith gyffredin y gweithredir drwyddi. Iaith i gyfieithu iddi ydi'r Gymraeg – boed mewn cyngor sir, canolfan hamdden neu rannau o'r gwasanaeth iechyd. Nid oes disgwyl i swyddogion ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd heblaw mewn modd tocenistaidd iawn.

Fe ddylai unrhyw Ddeddf Iaith newydd osod disgwyl i ar gyrff cyhoeddus yn ein cymunedau Cymraeg i weinyddu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai cam o'r fath yn cyfrannu'n helaeth at hybu defnydd o'r iaith ac at sicrhau fod y Gymraeg yn rhan hanfodol o fywyd cyhoeddus llawer o'n cymunedau.

Ymhellach, dylid nodi y byddai gweithredu'r polisi hwn mewn modd ystyrion hefyd yn gosod galwadau ar ein trefn addysg. Yn eu plith:

- bod colegau addysg bellach, sy'n gwasanaethu cymunedau Cymraeg yn sicrhau bod gwybodaeth o'r Gymraeg yn rhan hanfodol o bob cwrs yn hytrach na'u bod yn ceisio cynyddu'r nifer o gyrsiau unigol sydd ar gael drwy'r Gymraeg;
- bod pob plentyn yn cael eu haddysg trwy'r Gymraeg yn ysgol eu cymuned leol yn hytrach na chael y dewis i fynychu ysgol Gymraeg rhywle mewn man cyfagos.

*Darllenwch fwy am gynigion Cymdeithas yr Iaith ar gyfer Deddf Iaith: **Deddf Iaith Newydd – Dyma'r Cyfle** (Mehetin 2005) ☞*

CYNNAL SEILIAU'N CYMUNEDAU DEDDF EIDDO

Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, ni fydd unrhyw gymuned naturiol Gymraeg ar ôl erbyn y flwyddyn 2020. O ganlyniad, mae Cymdeithas yr Iaith yn dadlau mai dyma ein cyfle ymarferol olaf i gynnal unrhyw gymunedau Cymraeg hyfaw.

Mae dirywiad materol ein cymunedau yn deillio o gyfuniad o ffactorau cymdeithasol ac economaidd. Gwelwn broses gymleth o achos-ac-effaith ar waith.

Caiff y stoc presennol o eiddo ei feddiannu gan fewnfudwyr, o ganlyniad i'w gallu pwrcau uwch. Deillia hyn hefyd, o'r gwagle sy'n bodoli yn sgil allfudiad o Gymry ifanc o'u cymunedau, o ganlyniad i ddiffygion o ran polisiau economaidd, tai, trafndiaeth ac hefyd o ran cyfleusterau cymdeithasol. Yn ei dro, golyga hyn y daw gwahanol sefydliadau – y siop, y garej neu'r ysgol leol – o dan bwysau yn sgil diffyg cwsmeriaid neu ddisgyblion.

Heb Ddeddf Eiddo, erbyn 2020:

- y bydd cystadleuaeth gynyddol, a diffyg cefnogaeth a chynllunio, yn golygu bod pobl leol yn eu miloedd yn ei chael hi'n amhosib i gael mynediad i'r farchnad dai.

Rhwng nawr a'r flwyddyn 2020, credwn y byddwn yn cyrraedd pwynt go dyngedfennol. Mae'n wir bod nifer o bobl – gan gynnwys Cymdeithas yr Iaith – wedi codi rhybuddion o'r fath ar fwy nag un achlysur. Eto i gyd, nid dirywiad graddol sydd yn ein hwynebu bellach; erbyn hyn, mae nifer o gymunedau yn 'sefyll ar ymyl y dibyn'. Wrth i gymuned gollu un neu ddau o sefydliadau allweddol, gellir esgor ar broses sydyn, sydd yn tynnu popeth arall gydag ef – fel dominos yn syrthio. Cyn i neb lawn sylweddoli, mae peryg i'r cyfan lithro trwy'n dwylo. Bydd yr union sefydliadau neu adnoddau cymunedol yn amrywio o ardal i ardal, ond bydd yr egwyddor a'r peryg yr un peth.

YR ARGYFWNG TAI

Heb os, yr elfen sydd wedi derbyn y sylw pennaf dros y blynyddoedd yw'r argyfwng tai ac erbyn hyn, gellir dweud fod yna ymwybyddiaeth gyffredinol o natur y broblem hon. Ar hyn o bryd, fe welir fod prisiau tai ac eiddo yng Nghymru yn parhau i godi yn bell allan o gyrraedd y mwyafrif o brynwyr tro cyntaf ac felly mae nifer o Gymry yn colli'r cyfle i fyw yn eu cymunedau lleol. Yn ôl y Gofrestrfa Dir, erbyn diwedd 2004, roedd prisiau tai trwy Gymru wedi cyrraedd cyfartaledd o ryw £115,000. Dyna gynnydd o 31% dros y flwyddyn. Mae hyn yn arbennig o niweidiol, o ystyried fod y lefel hwn cymaint a phum gwaith yn uwch nag incwm cyfartalog y mwyafrif o Gymry. Mae sefyllfa o'r fath yn tansellio cynladwyedd unrhyw gymuned, yn enwedig o ystyried mai pobl ifanc sydd yn wynebu'r rhwystrau

pennaf.

Cred Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ei bod yn bryd ystyried y sefyllfa ym maes tai fel argyfwng sy'n effeithio ar bob cymuned yng Nghymru, a'i thrin fel argyfwng cenedlaethol sy'n galw am ateb cynhwysfawr. Yn wir, mae'r sefyllfa mewn nifer fawr iawn o gymunedau ledled Cymru yn parhau i waethygu ac fe gaiff pobl leol yn eu miloedd eu rhwystro o hyd rhag cael mynediad i'r farchnad eiddo leol. Mae cydnabod bod hyn yn argyfwng ar y Gymraeg yn gam cyntaf pwysig iawn yn y broses o gymell gwleidyddion a gwneuthurwyr polisiau i chwilio am atebion priodol.

Mae llawer o fesurau – cynllunio ac ariannol – yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd gan y Cynulliad ac awdurdodau lleol er mwyn ceisio helpu i ddarparu cartrefi y gall pobl eu fforddio. Ond, diffyg mawr yr holl gynlluniau hyn yw nad yw'r un ohonynt yn cynnig unrhyw fesur o reolaeth dros y farchnad agored mewn tai ac eiddo ac yn enwedig effeithiau niweidiol y farchnad honno ar gymunedau Cymraeg a Chymreig. Heb fod yn barod i wneud hynny, yn sgil maint a chymhlethdod y broblem, effaith ymylol yn unig a gaiff unrhyw gynllun.

Ateb Cymdeithas yr Iaith i'r argyfwng tai yw Deddf Eiddo. Dyma fesur sydd yn ymdrin â phob agwedd o'r broblem, boed hynny'n brisiau tai afresymol, datblygiadau niweidiol o dai neu ddiffyg darpariaeth o dai ar rent. Byddai Deddf Eiddo yn:

- estyn elfen o reolaeth dros y farchnad dai ac eiddo er mwyn diwallu anghenion tai pobl Cymru;
- diogelu a sicrhau cynladwyedd cymunedau Cymru a'r Gymraeg
- a diogelu'r amgylchedd.

Darllenwch fwy am gynigion Deddf Eiddo Cymdeithas yr Iaith: Y Llawlyfr Deddf Eiddo (Mai 2005). ☎

APÊL CYMRU 2020

Nid yw'r dyfodol uchod yn anochel. Gydag ymgyrchu gwleidyddol penderfynol gellir sicrhau dyfodol i'r Gymraeg a'n cymunedau. Eto i gyd, ni ellir llwyddo heb gefnogaeth ariannol.

Mae Cymdeithas yr Iaith yn chwilio am 100 o bobl sydd yn barod i gyfrannu £20.20 yn fisol i'r mudiad. Byddai hyn codi cyfalaf gweithredol misol o £2020 a gai ei ddefnyddio yn benodol er mwyn hybu gwaith ymgyrchu.

A fedrwch chi helpu? Beth amdani?

 cymdeithas
yr IAITH gymraeg

Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Llawr Gwaelod, Pen Roc, Rhodfa'r Môr,
Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AZ

01970 624501
swyddfa@cymdeithas.com
www.cymdeithas.com